
# Llythrennedd mewn maes dysgu a phrofiad

# Y Dyniaethau

## Siarad a gwrando

### Datblygu medrau siarad a gwrando yn Y Dyniaethau

- Mae hyn yn debyg / yn wahanol oherwydd . . .
  - Pam fod hyn wedi newid?
- Yr hyn sydd bwysicaf yma yw . . .
  - Pam fod hwn yn ddigwyddiad mor arwyddocaol?
- Dw i'n cytuno / anghytuno â'r ffynhonnell achos . . .
  - Mae'r ffynonellau yn awgrymu bod . . .
- Yn ystod y cyfnod hwn . . .
  - Beth sydd wedi newid erbyn heddiw?
- Y rheswm dros hyn yw . . .
  - Sut mae'r digwyddiad hwn wedi effeithio arnom ni?
- Felly, dw i'n dod i'r casgliad . . .
  - Beth fu canlyniad y digwyddiad hwn?



## Darllen

### Canolbwyntio ar eiriau amlystyr a geirfa haen 2 a 3

| | |
|---|---|
| Haen 1 - geiriau sy'n cael eu defnyddio bob dydd | craig, tywod, ogof, tonnau |
| Amlystyr - geiriau sydd ag ystyr bob dydd ac ystyr wrth drafod daearyddiaeth | bwa, crac, bae |
| Haen 2 - geiriau a welir ar draws meysydd dysgu a phrofiad | amgrymu, diffinio, esbonio, disgrifio |
| Haen 3 - geiriau sy'n benodol i destun daearyddol | erydu, ysgafell, dyddodiad, athreuliad |

## Ysgrifennu

### Ysgrifennu o fewn MDaPh Y Dyniaethau

#### NARATIF

Testun sy'n ailadrodd digwyddiadau yn eu trefn gronolegol ran amlaf. Gall fod yn ffuglen neu gall gynnwys gwybodaeth.

**MATH O FFURF** - HUNANGOFIANT, COFIANT, STORI FER, DETHOLIAD O NOFEL, NOFEL GRAFFIG A LLYFR LLUN

- Penderfynwch pwy sy'n adrodd y naratif. Pwy yw'r "llais" yn y darn? Person cyntaf neu'r trydydd person
- Dewiswch eich cymeriadau'n ofalus
- Byddwch yn adrodd digwyddiadau
- Defnyddiwch sgwrs i ddod â'r digwyddiadau'n fyw
- Gallwch gael naratif gweledol mewn llyfrau llun i blant bach

#### ESBONIO

Testun sy'n cynnwys rhesymau a manylion er mwyn dangos pam a sut, sy'n cynnwys yn aml nodi achosion a chanlyniadau a chysylltiadau rhwng digwyddiadau neu syniadau.

**MATH O FFURF** - ADRODDIAD AR DESTUN GWYDDONOL, DAEARYDDOL NEU DECHNEGOL AC ERTHYGL HANESYDDOL

- Defnyddiwch baragraffau i roi rhesymau gwahanol neu gamau gwahanol yn y broses
- Defnyddiwch yr amser presennol – "Mae", "Maen nhw" (heblaw am ddigwyddiadau hanesyddol)
- Gallwch ddefnyddio berfau amhersonol – "Gwelir"(presennol) "Gwelwyd" (gorffennol)
- Byddwch yn defnyddio termau technegol/pwnc penodol ac yn dweud beth y maent yn ei olygu
- Gallwch ddefnyddio seiniau a delweddau
- Eglurwch gan ddefnyddio data, graffiau, diagramau a mapiau

## Cysylltiadau allweddol

### Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill

'Mae llenyddiaeth yn darparu tystiolaeth werthfawr ar gyfer ymchwiliadau mewn dyniaethau,'

'Gall gwybodaeth am ymchwiliadau gwyddonol a datblygiadau technolegol a'u heffaith ar gymdeithas, gefnogi dysgwyr yn eu gallu i chwilio a hidlo tystiolaeth'



'Mae celf, cerddoriaeth, dawns, theatr, ffurfiau cyfryngol a llenyddol yn ddarnau gwerthfawr o dystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau yn y dyniaethau'

'ymatebion moesegol a chynaladwy i gyfleoedd a wynebir gan ddynoliaeth'